

## PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY

(O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:**

**Dydd Gwener, 11 Mawrth 2022**

<b>Cadeirydd:</b>	<b>Cynghorydd S.K.Hunt</b>
<b>Is-gadeirydd:</b>	<b>Cynghorydd R.L.Taylor</b>
<b>Cynghorwyr:</b>	D.Cawsey, C.J.Jones, S.M.Penry, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, J.Evans a/ac S.A.Knoyle
<b>Swyddogion sy'n Bresennol:</b>	N.Pearce, S.Brennan, C.Morris, N.Chapple, A. Collins, O.Gavigan, C.Jones, C.Millis, Ms.L.Willis, B.Suddell, T.Davies a/ac C.Plowman
<b>Gwahoddedigion y Cabinet:</b>	Cynghorwyr A.Wingrave a/ac L.Jones

---

### 1. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

#### **Adroddiad Diweddarau'r Amgylchedd**

Cyflwynwyd y rhaglen waith helaeth i'r Aelodau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio.

Eglurodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod yr adroddiad yn nodi'r ffrydiau gwaith a oedd yn parhau i weithredu, a nodwyd mai dyma'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch busnes fel arfer, yn ogystal â llwyth gwaith cynyddol sylweddol mewn ymateb i'r pandemig, a'r gwaith arall a wnaed mewn ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd.

Dywedwyd bod yr adroddiad wedi'i lunio yn ystod haf 2021, a'i fod wedi'i ddiweddarau cyn diwedd 2021. Mynegodd Swyddogion fod yr adroddiad yn gipolwg ar rywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod 2020 a 2021; parhaodd y gwaith i osod gofynion ar y gwasanaethau a

nodwyd, a gwnaed gwaith sylweddol ers i'r adroddiad gael ei baratoi yn y lle cyntaf.

Hysbyswyd y Pwyllgor am ymateb gwreiddiol y Cyfarwyddiaethau i'r pandemig; roedd staff yn allweddol wrth sefydlu'r ysbytai maes, trefnu'r hwb trafndiaeth a'r ganolfan dosbarthu bwyd. Ychwanegwyd bod Swyddogion hefyd wedi gwneud llawer o waith trawsbynciol fel ymateb y cyngor i'r agenda ynni, yr agenda datgarboneiddio a Phrosiect y Fargen Ddinesig.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y ddau brosiect canlynol yr oedd y cyngor yn eu harwain ar hyn o bryd ar:

- Prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer – prosiect rhanbarthol oedd hwn a oedd yn gofyn am gyllid o £15 miliwn gan y Llywodraeth; bydd yn cyflwyno £490 miliwn o ganlyniad. Roedd Swyddogion yn gobeithio y bydd hyn yn galluogi'r stoc tai ar draws y rhanbarth i fod yn fwy effeithlon o ran ynni effeithlon o ran y gwaith o ôl-osod, yn ogystal ag adeiladu o'r newydd.
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel – mae'r prosiect hwn eisoes wedi cyflwyno £47.5 miliwn a bydd yn cyflwyno £51 miliwn yn ychwanegol.

Dywedwyd bod y staff yn weithgar o ran gweithgarwch busnes fel arfer arall. Amlygwyd y ffrydiau gwaith canlynol:

- Roedd y cyngor wrthi'n adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), ac ar hyn o bryd roedd yn y cam safle ymgeisiol y broses; Roedd Swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth i sicrhau tystiolaeth i lywio'r Cynllun Datblygu Strategol, yr oedd gan y cyngor ddyletswydd statudol i'w ddarparu ar gyfer rhanbarth de-orllewin Cymru.
- Roedd y cyngor wedi cynnal ymgynghoriad llwyddiannus o ran mapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol; Roedd Swyddogion wedi bod yn adnewyddu ac yn adolygu'r rheini yn ystod y pandemig.
- Rhoddwyd nifer o brosiectau ecolegol llwyddiannus ar waith.
- Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn arwain ar brosiectau adfywio a chynllunio mawr gan gynnwys Cyrchfan Wildfox (a adwaenid gynt fel prosiect Cwm Afan); roedd hwn yn brosiect cyffrous iawn a gallai fod yn drawsnewidiol i Gwm Afan. Nodwyd bod y caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i gymeradwyo, bod Adran 106 wedi'i llofnodi a bod yr hysbysiad penderfyniad wedi'i ryddhau; roedd staff o fewn y Gyfarwyddiaeth bellach yn gweithio gyda'r datblygwyr i symud ymlaen i'r cam nesaf (y cam

materion manwl a gedwir yn ôl). Roedd Swyddogion hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr busnes yn yr ardal i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynyddu i'r eithaf o ran cyflogaeth, yn ogystal â sicrhau bod pobl leol yn cael mynediad at y swyddi hynny naill ai yn ystod y cam adeiladu neu'r cam gweithredol; gallai fod dros 900 o swyddi gweithredol yn gysylltiedig â'r datblygiad, a fyddai'n cynnig manteision i Gwm Afan, CNPT ehangach a'r ardal ranbarthol.

- Roedd Swyddogion yn gweithio ar gynllun Y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE); roedd caniatâd cynllunio wedi'i roi, ac roedd grŵp o Swyddogion yn gweithio gyda'r datblygwyr ar y cam datblygu nesaf i sicrhau ei fod yn dod yn brosiect llwyddiannus.
- Yn ddiweddar, lansiodd y cyngor ei frand cyrchfan ar gyfer CNPT. Soniwyd y bydd hyn yn helpu i wneud CNPT yn fwy deniadol i ymwelwyr, boed yn ymwelwyr dydd neu'n ymwelwyr dros nos; roedd y gwasanaeth am annog mwy o'r olaf, fel bod pobl yn aros yn yr ardal ac yn gweld pa asedau oedd gan CNPT i'w cynnig.
- Roedd y Gyfarwyddiaeth wedi bod yn gweithio ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Ranbarthol; roedd y pedwar awdurdod yn y rhanbarth bellach wedi cytuno ar hyn. Nodwyd bod Cynllun Datblygu Economaidd wedi'i ddatblygu i helpu i gael cyllid a sicrhau prosiectau datblygu economaidd pellach, yn CNPT, yn y dyfodol.
- Roedd y Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy wedi'i llunio; Ar hyn o bryd, roedd Swyddogion yn cynnal dadansoddiad o'r bylchau, i weld pa waith ychwanegol oedd ei angen i alluogi cynllun pontio sero-net.
- Roedd prosiect y Plaza wedi parhau yn ystod y pandemig; roedd tua mis nes bod y prosiect yn cael ei gwblhau.
- Cyflwynwyd Ysgol Cefn Saeson hefyd yn ystod y pandemig, gyda'r agoriad swyddogol yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf; roedd hon yn stori lwyddiant arall o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Yn dilyn y pwyntiau a godwyd uchod, nodwyd bod llawer o brosiectau a ffrydiau gwaith eraill, nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, yr oedd Swyddogion wedi ymroi i'w symud ymlaen; un enghraifft yw'r Parc Ynni a'r problemau sy'n gysylltiedig ag ef.

Esboniwyd nad oedd gwaith y Parc Ynni wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gan nad oedd y datblygiadau sylweddol wedi digwydd tan fis Ionawr 2022; roedd y cyngor wedi bod yn ymdrin â hyn ers dechrau 2021, pan dynnwyd sylw ato am y tro cyntaf, a phan godwyd y bygythiad o golli trydan am y tro cyntaf. Dywedodd Swyddogion eu bod yn ceisio cadw proffil isel ar y pwnc ar y pryd, gan nad oedden nhw am i'r sefyllfa gael effaith andwyol ar fusnesau'r parc; pe bai cwsmeriaid y busnesau hynny wedi cael gwybod am y broblem, gallai fod wedi tanseilio gorchmynion a hyfywedd y busnesau hynny yn y dyfodol. Hysbyswyd yr Aelodau fod y trydan wedi'i gadw ymlaen yn llwyddiannus hyd yma; fodd bynnag, ni chafodd ei warantu y byddai'r rhwydwaith gwifrau preifat yn parhau i ddarparu trydan i asedau ar y parc. Cadarnhaodd Swyddogion fod y cyngor, Llywodraeth Cymru a Western Power Distribution (WPD) wedi bod yn gweithio y tu ôl i'r llenni i osod rhwydwaith gwifrau cyhoeddus newydd; roedd hyn yn golygu y gellid trosglwyddo'r asedau a'r busnesau i'r rhwydwaith newydd unwaith y byddai wedi'i gwblhau.

Cyfeiriodd Swyddogion hefyd at yr argyfwng llifogydd a ddigwyddodd yn Sgiwen; Roedd Swyddogion yn y Timau Cynllunio ac Adfywio yn ymwneud â'r gwaith hwn, drwy roi cyngor iechyd i breswylwyr ac ymdrin â'r system ddraenio newydd a oedd yn cael ei rhoi ar waith.

Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y lefelau cadernid a staffio mewn gwahanol dimau.

Er gwaethaf y blynyddoedd o gyntaf, a'r toriadau i'r Gyfarwyddiaeth dros y blynyddoedd, cyhoeddodd Swyddogion fod arian ychwanegol wedi'i glustnodi o'r gyllideb i gynyddu'r gweithlu yn y dyfodol; dylai'r gwasanaeth gael ei recriwtio'n llawn o fewn y 6 mis nesaf.

Nodwyd bod cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gynyddu nifer y staff yn yr Adran Iechyd yr Amgylchedd; roedd aelodau newydd o staff hefyd yn dechrau yn yr Adran Gynllunio yn fuan. Esboniwyd bod y cyngor wedi colli aelodau allweddol o staff yn yr Adran Gynllunio, fodd bynnag roedd y broses recriwtio wedi bod yn llwyddiannus o ran cael rhai aelodau o staff newydd yn eu lle; byddai dau uwch aelod o staff yn dechrau yn yr adran o fewn 6 i 8 wythnos, ac roedd Swyddogion yn gobeithio bod nôl mewn sefyllfa lle bydd y gwasanaeth yn gallu ymateb i'r ceisiadau cynllunio niferus a oedd yn cael eu derbyn.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio hefyd yn derbyn adnoddau ychwanegol. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r Is-adran Ariannu Strategol yn derbyn cyllid ychwanegol, a fydd yn

darparu adnoddau mwy addas i gyflwyno ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac unrhyw ddarparwr cyllid arall; bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan CNPT achosion busnes manwl a chadarn iawn. Ychwanegwyd bod yr achosion busnes hynny'n hanfodol o ran y gallu i gael arian o fewn cyfnodau byr iawn, er mwyn galluogi'r tîm i gyflawni prosiectau ar draws CNPT.

Soniodd Swyddogion fod buddsoddiad hefyd yn cael ei wneud yn yr Adran Datblygu Economaidd, er mwyn i'r cyngor gefnogi busnesau'n well yn y dyfodol; roedd yr Adran Ystadau a Phenseiri hefyd yn mynd i gael cymorth ychwanegol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod llenwi'r bylchau adnoddau mewn gwasanaethau'n bwysig; cydnabuwyd nad oedd gan wahanol dimau o fewn y Gyfarwyddiaeth lefelau staff digonol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Dywedwyd er ei fod yn gadarnhaol bod arian ar gael i gyflogi rhagor o staff, dywedwyd bod her o'n blaenau o ran gallu recriwtio'r unigolion medrus a phrofiadol ar gyfer y swyddi gwag. Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod y farchnad yn gystadleuol iawn o ran cyflogaeth, gan fod y cyngor yn cystadlu yn erbyn y sector preifat ac awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth. Soniwyd bod gweithio o bell, hybrid wedi helpu staff i gael mynediad at gyflogwyr ymhellach o'u hardal leol; bydd y cyngor hefyd yn elwa o hyn, fodd bynnag byddai'n bwysig cadw staff medrus a staff sy'n cael eu gwerthfawrogi yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch cadw a chreu swyddi, ac anhawster paru a chystadlu â chystadleuwyr. Hysbyswyd yr Aelodau fod awdurdodau lleol, gan gynnwys CNPT, yn hanesyddol, wedi dibynnu ar eu cynlluniau pensiwn da ar gyfer staff a'r trefniadau gweithio hyblyg; Roedd cynghorau wedi darparu math penodol o brofiad i staff, o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, na fyddai'n aml yn cymharu â'r sector preifat. Tynnwyd sylw at y ffaith bod hyn wedi'i wanhau ychydig yn ystod ac ers y pandemig; roedd y sector preifat bellach wedi symud i'r amgylchedd gwaith hybrid, felly roeddent hefyd yn gallu darparu amgylchedd gwaith mwy hyblyg i'w staff.

Roedd Swyddogion yn cydnabod bod gwersi i'w dysgu yn y dyfodol, yn enwedig wrth geisio gwneud Cyngor CNPT yn gyflogwr mwy deniadol o ran y cydbwysedd hwnnw rhwng bywyd a gwaith. Deallwyd bod cyflog yn broblem yn y sector preifat, a bod rhai o'r awdurdodau yn y rhanbarth yn talu cyflogau uwch am rolau tebyg;

Roedd Swyddogion yn gweithio gydag Adnoddau Dynol (AD) i geisio mynd i'r afael â'r problemau.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod cynifer o gyfleoedd a heriau cyffrous o'n blaenau yn CNPT. Fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach, roedd agenda datgarboneiddio'r cyngor yn her gadarnhaol; roedd cynifer o gwmnïau am redeg eu busnesau o CNPT a gwella'r sgiliau a'r cyfleoedd ar gyfer y cymunedau. Soniodd Swyddogion fod rhai aelodau o staff am dderbyn yr heriau hynny, a'u bod am weithio mewn awdurdodau lle'r oedd cyfleoedd cyffrous o'u blaenau. Dywedwyd y byddai'n bwysig cymharu CNPT ag awdurdodau cyfagos, er mwyn i CNPT allu darparu lefel o gystadleuaeth sydd wedi'i gwella'n sylweddol; yn ddi-os, bydd yr her yn parhau o ran cadw'r staff a oedd gan y cyngor ar hyn o bryd.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod cydweithwyr AD wedi sefydlu Tîm Datblygu Sefydliadol, a oedd yn helpu i recriwtio ar gyfer y swyddi hynny sy'n anodd iawn i'w llenwi. Soniwyd bod rhai swyddi wedi'u hysbysebu bedair gwaith, heb lwyddiant wrth recriwtio; roedd rhai swyddi nad oeddent yn denu ymgeiswyr, ac eraill lle nad oedd modd penodi'r ymgeiswyr. I gloi, mynegodd Swyddogion yr angen i edrych ar ffyrdd eraill o recriwtio staff a marchnata Cyngor CNPT fel cyflogwr da.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

#### Cytundebau Ariannu Prosiectau Bargaen Ddinesig Bae Abertawe dan arweiniad Castell-nedd Port Talbot

Darparwyd adroddiad diweddar i'r Pwyllgor ar ddau brosiect Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yr oedd Castell-nedd Port Talbot (CNPT) yn arwain arnynt:

- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer – prosiect rhanbarthol i annog effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi ar draws y rhanbarth a oedd yn y cam cyflwyno ar hyn o bryd; Roedd Swyddogion yn gweithio i geisio lansio'r arian.
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel – rhaglen gyffrous a oedd yn cynnwys saith prosiect unigol. Rhoddodd Swyddogion enghreifftiau o rai o'r prosiectau o fewn y rhaglen, a nodwyd eu bod i gyd ar wahanol gamau datblygu.

Esboniwyd bod yr achosion busnes ar gyfer y ddau brosiect wedi'u cymeradwyo yn ystod haf 2021, a bod y cytundebau ariannu wedi'u llofnodi a'u cytuno.

Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed gan un o brosiectau unigol Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel, sef yr Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan (CT). Cadarnhaodd Swyddogion eu bod wedi penodi arbenigwr ym maes cerbydau trydan, o Brifysgol Abertawe, i helpu i ddatblygu'r gwaith hwn; a byddent yn dechrau ymhen ychydig wythnosau. Nodwyd bod nifer cynyddol o ffrydiau ariannu wedi dechrau dod i'r amlwg, ac er mwyn i'r cyngor fanteisio ar y rhain, roedd angen sefydlu strategaeth gynhwysfawr; byddai'r cynnydd yn amlwg yn ystod y misoedd nesaf, a bydd Aelodau Etholedig yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Gronfa Datblygu Eiddo a sut y byddai'n cael ei defnyddio yn y fwrdeistref sirol. Esboniodd Swyddogion fod yr arian wedi'i leoli'n ddaearyddol i Lannau'r Harbwr, Parc Ynni Baglan ac ardal ystâd ddiwydiannol Baglan; swm bach o arian oedd ar gael, felly roedd yn bwysig canolbwyntio ar gysylltu ardaloedd, gan fod y ffrwd gyllido hon yn ymagwedd sy'n seiliedig ar le. Dywedwyd bod gan nifer o ddatblygwyr ddiddordeb mewn cyflwyno ceisiadau ar gyfer y Gronfa Datblygu Eiddo.

Yn dilyn y drafodaeth, ychwanegodd Swyddogion y gallai Aelodau fod am ystyried datblygu'r cynllun ymhellach ar draws y fwrdeistref sirol yn y dyfodol, a allai hefyd ddenu rhagor o arian; gellid edrych ar hyn ar gyfer rownd nesaf y Gronfa Codi'r Gwastad. Nodwyd nad oedd safleoedd a mangreoedd yn un o flaenoriaethau Cronfa Codi'r Gwastad ar hyn o bryd; fodd bynnag, roedd Swyddogion wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynglŷn â hyn.

Soniwyd bod Swyddogion wedi trefnu ymweliad safle ar gyfer Llywodraeth y DU, ac wedi dangos iddynt y meysydd blaenoriaeth ar draws y fwrdeistref sirol; roedd hyn yn helpu Llywodraeth y DU i ymgysylltu â Chastell-nedd Port Talbot, o ran Cronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Eglurodd y Pennaeth Eiddo ac Adfywio'r anawsterau presennol gyda safleoedd a mangreoedd; roedd problemau o ganlyniad i argaeledd tir a oedd wedi'i adfer a'r safleoedd a oedd yn barod i'w datblygu, yn ogystal â'r bwch hyfywedd rhwng cost adeiladu a gwerth y fangre wedi hynny. Tynnwyd sylw at y ffaith bod awdurdodau lleol eraill ar draws de-orllewin Cymru mewn sefyllfa debyg; ac roedd Swyddogion yn trafod hyn yn barhaus gyda Llywodraeth Cymru.

Holodd yr Aelodau sut roedd y prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn mynd i ryngwynebu â'r sector preifat o ran adeiladau newydd. Esboniwyd bod y prosiect yn y camau cynnar, fodd bynnag y nod oedd profi'r cysyniad yn y sector cyhoeddus a chyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC); unwaith y byddai'r cymysgedd gorau posib o ynni adnewyddadwy a thechnolegau wedi'i gael, er mwyn lleihau'r gost oherwydd mwy o alw, yna byddai'r prosiect yn cael ei gyflwyno i'r sector preifat.

Yn dilyn yr uchod, esboniodd Swyddogion y byddai'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn yn cael ei rannu ag eraill, gan gynnwys y sector preifat, er mwyn rhannu arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd. Ychwanegwyd y bydd cronfa canolfannau ariannol a fydd yn darparu'r cyllid llenwi bwch ar gyfer y sector preifat, yn ogystal â LCC, awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus; bydd hyn yn ariannu'r bwch rhwng yr hyn a fyddai'n adeilad safonol, a'r hyn a fyddai'n adeilad ychwanegol i gynyddu effeithlonrwydd y cartref. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai gwaith monitro cynhwysfawr yn cael ei wneud a fyddai'n edrych ar wyddor cymdeithas yn ogystal â pherfformiad yr adeilad; bydd hyn hefyd yn cael ei rannu ar lwyfan cyhoeddus ar gyfer pob sector i helpu i addysgu ar y technolegau newydd. Soniodd Swyddogion y byddant yn sefydlu grŵp sgiliau i sicrhau bod digon o sgiliau ar draws y rhanbarth i ddal i fyny â'r dechnoleg sy'n newid.

Ychwanegodd y Pennaeth Eiddo ac Adfywio y gallai fod newidiadau i reoliadau adeiladu rywbyrd yn y dyfodol; felly, bydd gorfodaeth yn ogystal ag anogaeth. Nodwyd bod Swyddogion yn bwrw ymlaen â'r anogaeth yn gynnar i geisio normaleiddio'r ymddygiad ac i ddatblygu cadwyn gyflenwi, a oedd ill dau'n bwysig iawn.

O ran y prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer, gofynnwyd a fydd perchnogion tai ar draws y rhanbarth yn gymwys ar gyfer y gwaith ailosod neu a oedd yn mynd i gael ei ddarparu mewn ardaloedd dynodedig. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am wybodaeth ynghylch meini prawf y cartrefi a fydd yn elwa o'r gwaith ailosod. Nodwyd bod Swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio gyda nifer o gydweithwyr ar draws y rhanbarth, mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer y prosiect; fodd bynnag, byddai'r meini prawf yn canolbwyntio ar ddatblygwyr yn hytrach na perchnogion tai unigol. Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith y bydd yr arian yn caniatáu i'r gwahanol sectorau olrhain y trosoledd, a fydd yn mynd tuag at yr arian cyfatebol.



Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd digon o arian yn y ffrwd gyllido hon ar gyfer perchnogion tai unigol, fodd bynnag roedd ffrydiau cyllido eraill ar gael yn uniongyrchol i berchnogion tai; Bydd Swyddogion yn sefydlu system gyfeirio hawdd ei defnyddio ar gyfer y cyhoedd, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o sut i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gyllid, ôl-osodiadau a thechnoleg. Cadarnhaodd Swyddogion y byddent yn gallu rhannu'r meini prawf ag Aelodau, ar ôl iddynt gael eu datblygu; yn ogystal â diweddariadau ar yr elfennau eraill fel y system gyfeirio ar gyfer perchnogion tai unigol.

Yn dilyn y drafodaeth mewn perthynas â'r ôl-osod, crybwyllwyd bod llawer o berchnogion tai preifat nad oeddent yn perthyn i unrhyw un o'r prif gategoriau e.e. nid oeddent yn ymwneud â LCC; felly, roedd elfen fawr o risg i'r perchnogion tai hyn. Dywedwyd bod llawer o'r technolegau yn eu dyddiau cynnar, ac roedd perchnogion tai'n eithaf pryderus am beryglu eu harian eu hunain ar gyfer prosiect nad oeddent yn siŵr y byddai'n gweithio yn y ffordd yr oeddent yn gobeithio. Fodd bynnag, nodwyd y bydd y cynllun hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r perchnogion tai hyn; bydd y gwaith sy'n ymwneud â sgiliau a hyfforddiant hefyd yn helpu i sicrhau bod unigolion â chymwysterau a phrofiad addas yn cael eu cynnwys i asesu'r gwahanol eiddo, gan gynnwys pa offer fyddai ei angen. Ychwanegwyd y byddai hefyd yn bwysig cyflogi unigolion a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol i osod yr offer a'u cynnal a'u cadw wedi hynny.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Prosiect Monitro Ansawdd Aer, yn dilyn ceisiadau gan Aelodau am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn. Esboniodd Swyddogion mai'r nod ar gyfer y synwryddion monitro ansawdd aer oedd treialu technolegau newydd; ar hyn o bryd roedd gorsafoddd monitro swyddogol sefydlog ar gael, ac roedd *Vortex* wedi datblygu tua 70 o synwryddion ansawdd aer symudol, cost isel a sensitif y gellid eu defnyddio ar draws gwahanol leoliadau. Ychwanegwyd bod y prosiect *Vortex* ar gamau cynnar a'i fod yn brosiect peilot; bydd yn darparu gwybodaeth well, mwy lleol a manwl am ffynonellau llygredd.

Yn ychwanegol at yr uchod, tynnwyd sylw at y ffaith bod Swyddogion lechyd yr Amgylchedd yn gweithio ar brosiect astudio 12 mis lleol; bydd hyn ar y cyd â phrosiect *Vortex*, a bydd yn edrych yn benodol ar gyfleusterau penodol. Hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion wrthi'n sefydlu'r prosiect hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddant yn cael unrhyw ddiweddariadau ar brosiectau eraill y fargen ddinesig nad oedd Castell-nedd Port Talbot yn arwain arnynt; e.e. yr isadeiledd digidol a oedd yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Gâr. Cadarnhaodd Swyddogion y gallent roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau eraill y fargen ddinesig; roedd pob prosiect yn dechrau ar y cam cyflwyno, felly bydd llawer mwy o weithgarwch yn cael ei weld. Soniwyd bod Bwrdd Rhanbarthol wedi'i sefydlu ar gyfer y prosiect digidol, a bydd Castell-nedd Port Talbot yn derbyn adnoddau ychwanegol sy'n cyd-fynd â'r prosiect digidol hwnnw.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

### Y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau: Cytundebau Grant

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad yn ymwneud â chytundebau grant ar gyfer y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau.

Trafododd y Pwyllgor gynaliadwyedd y gronfa, yn enwedig cyllid tymor hir er mwyn cyflawni camau gweithredu. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu grant blynyddol o'r gronfa gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau yn flaenorol. Fodd bynnag, esboniwyd y bu trafodaethau'n fwy diweddar ynghylch Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o sicrwydd ariannol, dros gyfnod o dair blynedd; pe bai hyn yn digwydd, byddai Swyddogion yn ei groesawu. Esboniodd Swyddogion fod yr adroddiad a ddisbarthwyd yn amlinellu'r trefniadau ariannu gan ddefnyddio arian o'r flwyddyn ariannol hon, a'r flwyddyn ariannol nesaf; wrth edrych ar flaenoriaethau'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) yn y dyfodol, roedd yn debygol y bydd cynlluniau o'r fath yn parhau i gael eu cefnogi.

Yn ogystal, cadarnhaodd Swyddogion y byddai tîm cefnogi'r BCA yn cynnal adolygiad strategol o wasanaethau presgripsiwn; gallai hyn newid y ffordd y mae'r gwasanaethau'n gweithredu. Nodwyd bod gwasanaethau presgripsiwn yn rhan annatod o waith y BCA; p'un a oeddent yn parhau yn y fformat presennol neu fformat arall, bydd y gwaith sy'n ymwneud â gwasanaethau presgripsiwn yn parhau. Hysbyswyd yr Aelodau y bydd yr adolygiad yn edrych ar ffactorau fel yr hyn a weithiodd, yr hyn nad oedd yn gweithio a sut fath o fodel y dylid ei gael yn y dyfodol er mwyn llenwi'r bylchau. Esboniwyd bod y BCA yn cychwyn ar daith newid i geisio gweithio tuag at fodel iechyd cyhoeddus integredig; ni fyddai'r math hwn o fodel yn gweithio heb wasanaethau presgripsiwn.

Cyfeiriwyd at yr adeiladau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfnewid nodwyddau a chasglu Methadon er mwyn cefnogi'r defnyddwyr gwasanaeth. Soniodd yr Aelodau nad oedd rhai o leoliadau'r adeiladau hyn bob amser yn addas i'r diben, ac weithiau roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd yn yr ardaloedd hyn. Gofynnwyd a oedd cyllid ar gael i sicrhau lleoliadau mwy addas ar gyfer y gwasanaethau hyn. Dywedodd Swyddogion fod llawer o anawsterau'n gysylltiedig â dod o hyd i'r lleoliad cywir, ac roedd yn hanfodol bod yr adeiladau wedi'u lleoli lle'r oedd angen ac fel eu bod yn hygyrch i'r defnyddwyr gwasanaeth; roedd lleoliad yn ffactor allweddol yr edrychodd Swyddogion arno, a byddent yn parhau i edrych arno. Amlygwyd byddai'r model iechyd cyhoeddus ehangach y soniwyd amdano'n flaenorol yn cynnwys trefniadau a oedd yn addas i'r diben; ni fyddai hyn ar unwaith, fodd bynnag bydd yr Aelodau'n cael eu diweddarau wrth i'r model fynd yn ei flaen.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r argymhelliad fynd at Fwrdd y Cabinet.

### Data Dangosyddion Perfformiad Chwarter 3 2021/2022

Cyflwynwyd Data Rheoli Perfformiad Chwarter 3 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Rhagfyr 2021 i'r Aelodau.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch nifer yr achosion o dorri PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot/Tai-bach); roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi bod gan y dangosydd perfformiad hwn raddfa goch a rhestrodd 32 o doriadau yn 2021/22 o'i gymharu â 4 yn 2019/20. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o fanylion am hyn.

Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod yr achosion o ormodiant a gafwyd eleni yn llawer uwch na'r llynedd, a chydnabuwyd hynny; nodwyd bod y targed blynyddol yn 35 o achosion o ormodiant, felly roedd y cyngor bron â phasio trothwy'r targed blynyddol.

Cadarnhawyd bod y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wedi siarad â Swyddogion i geisio deall manylion y materion; datgelodd adroddiadau'r toriadau ei bod yn debygol mai Gwaith Dur TATA oedd y ffynhonnell.

Yn ogystal â'r drafodaeth, esboniodd Swyddogion mai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) oedd rheoleiddiwr safle TATA, a'u bod yn parhau i ymchwilio; Rhoddodd CNC awgrym i Swyddogion ynghylch un o'r rhesymau pam y gallai'r toriadau fod yn digwydd. Dywedwyd bod llai o gynhyrchu o ganlyniad i'r pandemig, a oedd wedi arwain at rai anawsterau ar y safle o ran rheoli'r pentyrrau; roedd hyn yn arwain at ragor o achosion posib lle'r oedd llwch yn cael ei allyrru o'r safle.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn i TATA ddarparu dulliau llethu llwch ychwanegol a rhagor o wylidwriaeth, o ganlyniad i'r gormodiant hwn; Roedd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion CNC i nodi'r materion ac ymchwilio iddynt yn unol â hynny. Dywedodd Swyddogion fod y toriadau'n peri pryder; fodd bynnag, roedd monitro'n parhau, a'r gobaith yw y byddai prosiect Vortex yn darparu rhagor o wybodaeth am lygredd lleol.

Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'n digwydd pe bai'r lefelau gormodiant yn cynyddu; a holwyd a fyddai asesiad effaith ar iechyd y gymuned sy'n byw'n agos at y diwydiant yn cael ei gynnal. Esboniwyd bod y dangosyddion perfformiad yn gysylltiedig â'r amcanion ansawdd aer, a bod angen adrodd am y rhain yn flynyddol i Lywodraeth Cymru; roedd y targed blynyddol wedi'i ragori o'r blaen, lle cafodd Llywodraeth Cymru ei hysbysu wedyn drwy'r amcanion ansawdd aer. Soniwyd bod yr ardal rheoli ansawdd aer ym Margam, Tai-bach yn gysylltiedig â'r gwaith hwn; yn ogystal â'r prosiect Vortex y soniwyd amdano eisoes. Dywedwyd bod hyn i gyd yn cael ei lywodraethu ac yn tynnu sylw at well dealltwriaeth o ba broblemau oedd yn codi'n lleol; Roedd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru a CNC yn cydweithio'n agos mewn perthynas â'r safle hwn. Ychwanegodd Swyddogion y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch asesiadau iechyd posib yn y dyfodol, yn benodol o ganlyniad i'r safle hwn.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

### Astudiaeth Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru – Adfywio Canol Trefi yng Nghymru

Rhoddyd cynllun gweithredu i'r Pwyllgor yn nodi ymateb y cyngor i'r argymhellion a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn ei hastudiaeth genedlaethol (Adfywio Canol Trefi yng Nghymru).

Cyfeiriwyd at drafnidiaeth, mynediad a pharcio yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r camau gweithredu yn yr adroddiad yr oedd yn ofynnol iddynt eu cwblhau; yn enwedig yr elfen parcio. Esboniodd Swyddogion fod parcio'n broblem barhaus; wrth ddadansoddi holiaduron y cais, roedd llawer o fusnesau wedi codi'r mater y byddai parcio am ddim yng nghanol trefi o fudd mawr iddynt. Fodd bynnag, nodwyd bod angen cydbwysu hyn yn erbyn trafnidiaeth gynaliadwy a ffactorau amrywiol eraill; efallai na fydd cynnig parcio am ddim yn

adlewyrchu'r polisi y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn o ran lleihau nifer y cerbydau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r meysydd parcio aml-lawr y mae'r cyngor yn berchen arnynt; gofynnwyd a ellid cynnal archwiliad o'r meysydd parcio er mwyn penderfynu sut y gellid eu gwneud yn fwy croesawgar i ymwelwyr. Cadarnhaodd y Pennaeth Eiddo ac Adfywio fod hyn yn cael ei ystyried; roedd trefniadau cynnal a chadw parhaus gyda phob adeilad sy'n eiddo i'r cyngor. Soniwyd bod y gyllideb yn ffactor mawr yn y ffordd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

Cododd y Pwyllgor bwysigrwydd isadeiledd digidol; roedd cael y drefn gywir yn hanfodol er mwyn cadw mewn cysylltiad. Soniodd Swyddogion y byddai rhai pobl yn manteisio ar Wi-Fi am ddim, pe bai ar gael yn ehangach ar draws canol y dref; fodd bynnag, efallai na fydd gan rai gymaint o ddiddordeb gan fod pobl yn tueddu i fod yn fwy disymud pan fyddant am fanteisio ar hynny e.e. mewn bwytai. Nodwyd bod Swyddogion yn edrych ar gysylltedd digidol a sut y gallai weithio i ganol trefi ar draws y fwrdeistref sirol; gobeithir y bydd yr astudiaethau hyn yn rhoi gwybodaeth am yr hyn a oedd yn ffynnu a lle'r oedd angen mwy o sylw.

O ran ardrethi busnes, amlygwyd bod llawer wedi newid, yn enwedig yn ystod y pandemig; roedd unigolion yn defnyddio siopa ar-lein yn fwy nag erioed. Dywedodd Swyddogion fod angen cydbwysu hyn, fel mewn llawer o achosion, roedd manwerthwyr ar-lein yn ffynnu llawer mwy na'r rheini a oedd yn gorfforol bresennol yng nghanol trefi; roedd angen rhagor o anogaeth i ymweld â chanol trefi. Hysbyswyd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru'n cydnabod hyn a'u bod yn ystyried sut y gellid ymdrin â hyn yn y dyfodol. Ychwanegodd Swyddogion y dylai'r adroddiad fod wedi cydnabod bod angen ymchwilio i'r system ardrethi busnes gyfan.

Mynegodd yr Aelodau fod angen i ganol trefi gael gwell cyfleusterau ar gyfer y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant. Cadarnhaodd Swyddogion eu bod wedi bod yn bwriadu amrywiaethu canol y dref ers tro; cyn y pandemig, roeddent wedi rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu'r cyfleuster hamdden yng nghanol tref Castell-nedd. Nodwyd bod y ffordd y gellid darparu'r cyfleusterau hyn yn cael ei hystyried ar draws y fwrdeistref sirol; bydd datblygiad y *Plaza* yn rhan bwysig o'r gwaith hwn ar gyfer Port Talbot. Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod hyn yn ffordd wych o gael pobl yn ôl i ganol trefi a'u gwneud yn fwy dichonadwy; nid manwerthu fydd yr unig reswm y mae pobl yn defnyddio canol trefi yn y dyfodol, ac roedd yn bwysig i'r

cyngor ystyried ffyrdd o wneud canol trefi'n ddiddorol mewn ffordd wahanol.

Soniodd Swyddogion fod ymgynghorwyr yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd i ystyried datblygu strategaeth ar gyfer canol trefi eilaidd a thrydyddol; mae hyn yn cynnwys ardaloedd fel Gwauncaegurwen ac Ystalyfera.

Tynnwyd sylw at y rhestr o gyllid Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn 2020-21 ar gyfer adfywio canol trefi, a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd; roedd yn dangos bod Castell-nedd Port Talbot yn drydydd ar y rhestr, y tu ôl i Abertawe a Chasnewydd, a oedd yn gadarnhaol i'r fwrdeistref sirol.

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â datblygu agweddau treftadaeth a diwylliannol canol trefi, yn enwedig chwaraeon fel amgueddfeydd pêl-droed a rygbi. Hysbyswyd yr Aelodau fod y cyngor yn bwriadu datblygu'i strategaeth treftadaeth ddiwylliannol; bydd llawer o elfennau'n cael eu cynnwys yn y strategaeth, gan gynnwys dealltwriaeth o'r dreftadaeth chwaraeon.

Cyfeiriwyd at faterion yn ymwneud â Wi-Fi am ddim yng nghanol trefi; crybwyllwyd bod cysylltiad da yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhai ardaloedd yng Nghastell-nedd. Mynegodd yr Aelodau, pe bai'r cyngor yn mynd i fod yn cysylltu cymunedau a threfi ymhellach o ran yr agwedd ddigidol, y byddai'n bwysig sicrhau nad oedd grwpiau mawr yn dychryn siopwyr ac yn achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Esboniodd Swyddogion fod partneriaethau wedi'u sefydlu ar gyfer canol trefi Castell-nedd a Phort Talbot; mae'r cyfarfodydd hyn yn edrych ar faterion amrywiol sy'n ymwneud â chanol trefi, gan gynnwys nodi problemau cyfredol a meddwl am syniadau i leihau achosion. Nodwyd y byddai angen i Swyddogion reoli'r mater hwn wrth i'r gwaith cysylltedd fynd rhagddo, a'i reoli ar y cyd â'r gwahanol dimau. Ychwanegwyd bod yr heddlu'n cael eu cynrychioli ym mhartneriaethau canol y dref, a'u bod wedi gwella cysylltiadau â'r cyngor.

Yn ogystal â'r drafodaeth, nodwyd bod y Tîm Diogelwch Cymunedol, ar ran y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, wedi cynnal amrywiol gyfarfodydd partneriaeth i fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth ac atebion er mwyn mynd i'r afael â'r problemau; roedd rhai ohonynt yn cynnwys elfennau fel y gweithwyr allgymorth camddefnyddio sylweddau, a gwaith gwell i hyrwyddo'r defnydd o'r

radio. Ychwanegwyd bod y cyfarfodydd hyn hefyd yn tynnu sylw at bethau cadarnhaol canol y dref, ac yn annog gwaith agos gyda Heddlu De Cymru sy'n arwain o ran gweithgarwch gorfodi.

Amlygodd yr adroddiad a ddisbarthwyd fod wyth canol tref yn y fwrdeistref sirol; Gofynnodd yr Aelodau am y rhestr lawn o'r canolau trefi hyn. Cyfeiriodd Swyddogion at y canlynol fel yr wyth canol tref, fodd bynnag, byddent yn anfon y rhestr wedi'i chadarnhau at yr Aelodau y tu allan i'r cyfarfod:

- Castell-nedd
- Port Talbot
- Pontardawe
- Llansawel
- Glyn-nedd
- Sgiwen
- Tai-bach
- Ystalyfera

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 2. **EITEMAU BRYD**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 3 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd)

Rheswm dros y Mater Brys:

Oherwydd yr elfen amser

## 3. **CYNNYDD MEWN PRISIAU CERBYDAU HACNI**

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad yn ymwneud â phenderfynu ar gynnydd mewn taliadau am deithio mewn cerbydau hacni.

Gofynnwyd sut roedd y tariff arfaethedig yn cymharu ag awdurdodau lleol cyfagos. Soniodd Swyddogion, wrth gymharu tariffau ag awdurdodau eraill, ei bod yn bwysig cofio bod cyfraddau cychwyn gwahanol a'u bod yn cynyddu ar wahanol gyfraddau. Wedi dweud hynny, hysbyswyd yr Aelodau fod cylchgrawn a oedd yn cyhoeddi'r tariffau, ac yn cymharu tariffau ar daith ddwy filltir, tariff amser dydd (a elwir hefyd yn dariiff 1). Rhoddwyd y cymariaethau canlynol:

- O'r 359 o gynghorau ar draws Cymru a Lloegr, roedd CNPT yn y 283ain safle ar hyn o bryd (y tariff uchaf oedd yn 1af)
- Yng Nghymru, o'r 22 awdurdod lleol, gosodwyd CNPT yn 18fed. Cadarnhawyd bod gan CNPT gost tariff 1 o ddwy filltir ar hyn o bryd, sef £5.46. Roedd hyn yn cymharu'n lleol â'r canlynol;
  - Powys - £5.40 (yr isaf)
  - Merthyr - £5.50
  - Abertawe - £5.70
  - Pen-y-bont ar Ogwr - £5.80
  - Sir Gaerfyrddin - £6.20

Ychwanegodd Swyddogion y byddai hyn, wrth weithredu'r cynnig yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, yn mynd â thaith ddwy filltir CNPT ar dariff 1 i £5.80; bydd hyn yn sicrhau bod y cyngor yn cyd-fynd â Phen-y-bont ar Ogwr ac ychydig yn uwch nag Abertawe. Fodd bynnag, nodwyd bod Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe wedi gweithredu cynnydd ddiwethaf yn 2018; felly, bydd disgwyl i'r cynghorau hyn gynyddu eu cyfraddau yn y misoedd sydd ar ddod.

Holodd y Pwyllgor a oedd y cynnydd yng nghostau byw a chwyddiant yn rhan o'r cynnydd yn y tariffau. Cadarnhawyd mai costau byw oedd y rheswm dros gynyddu tariffau. Dywedodd Swyddogion fod y tariffau wedi cynyddu ddiwethaf yn 2019; ar yr adeg hon roedd Rheolwr Rheoleiddio Cyfreithiol y cyngor wedi siarad â'r gwahanol sefydliadau masnach yn y fasnach cerbydau hacni yn CNPT, ac awgrymodd y dylid adolygu'r tariffau'n flynyddol. Oherwydd y pandemig, nodwyd na chafodd y tariffau eu hadolygu yn 2020 a 2021; dyma'r cyfle cyntaf dros y tair blynedd diwethaf i edrych ar gynyddu'r tariffau i dalu am gostau byw. Ychwanegwyd y byddai'r adolygiad blynyddol o'r tariffau yn parhau bob blwyddyn yn y dyfodol.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r argymhelliad i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

## **CADEIRYDD**